

Trawsblannu celloedd ynysoedd pancreatig a roddir i gleifion sydd â diabetes math 1

*Mae 'arweiniad
Techlechydd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir trawsblannu celloedd ynysoedd pancreatig a roddir yn y GIG i drin pobl sydd â diabetes math 1. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgôp i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio diabetes math 1 na'r driniaeth yn fanwl – dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am hynny. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mewn ysbytai sydd â phrofiad o drawsblannu celloedd ynysoedd pancreatig, gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â diabetes math 1, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Os yw meddyg am ddefnyddio'r driniaeth hon, dylent sicrhau y cymerir camau ychwanegol i egluro'r risgiau posibl a'r ansicrwydd am ba mor dda mae'n gweithio yn yr hirdymor. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i'r driniaeth. Dylai'r claf gael y daflen hon ac unrhyw wybodaeth ysgrifenedig arall fel rhan o'r drafodaeth.

Dylai tîm o feddygon arbenigol benderfynu pa gleifion ddylai gael y driniaeth hon. Dylent ystyried y ffaith ei bod yn arbennig o addas ar gyfer cleifion a allai gael cyfnodau hypoglycaemig sydyn heb unrhyw arwyddion, neu sydd eisoes yn cymryd meddyginiaethau gwrthimiwnedd oherwydd trawsblannu aren.

Mae NICE hefyd wedi penderfynu y byddai gwybodaeth bellach am sut y mae'r driniaeth hon yn effeithio ar ansawdd bywyd a pha mor dda y mae'n gweithio yn yr hirdymor yn ddefnyddiol.

Sylwadau eraill gan NICE

Mae'r Grŵp Comisiynu Cenedlaethol yn sefydliad sy'n cynllunio, ariannu a monitro triniaeth y GIG o gyflyrau anghyffredin iawn, ar wahân i'r ymddiriedolaethau gofal sylfaenol. Mae wedi datblygu safonau gwasanaeth ar gyfer y driniaeth hon sydd ar gael i drigolion ledled y DU.

Efallai nad hof yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer diabetes math 1.

Dylai eich tîm gofaliachyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Trawsblannu celloedd ynysoedd pancreatig a roddir i gleifion sydd â diabetes math 1

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'trawsblaniad cell ynysoedd pancreatig alogenëig ar gyfer diabetes mellitus math 1'. Mae'r gair 'alogenëig' yn golygu wedi'i gymryd gan roddwr.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Ni ddefnyddir y driniaeth hon ar gyfer pobl na all eu cyrff gymryd inswlin (neu na all eu cyrff gymryd cymaint ag sydd ei angen arnynt). Mae inswlin yn bwysig ar gyfer rheoli cydbwysedd siwgr yn y gwaed. Caiff ei wneud mewn celloedd arbennig yn y pancreas a elwir yn gelloedd ynysoedd.

Mewn trawsblaniad cell ynysoedd pancreatig, caiff celloedd ynysoedd claf eu hategu â chelloedd ynysoedd o pancreas wedi'i roi gan berson(au) a fu farw'n ddiweddar. Rhoddir naill ai anesthetig lleol neu lonyddwr i'r claf. Gosodir pibell hyblyg denau a elwir yn gathetr drwy wal abdomenol uchaf y claf i mewn i'r wythïen borthol, sef yr wythïen sy'n cludo gwaed a maeth o'r coluddyn i'r iau/afu. Yna chwistrellir y celloedd ynysoedd i wythïen borthol iau/afu'r claf. Os yw'r driniaeth yn llwyddiannus, bydd celloedd y rhoddwr yn dechrau creu inswlin. Mae angen cymryd meddyginiaethau gwrthimiwneddion i ddiogelu celloedd y rhoddwr rhag ymosodiad gan system imiwnedd y claf. Gellir lleihau therapi inswlin neu roi'r gorau iddo os yw'r trawsblaniad yn llwyddiannus.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio mewn ysbytai yn y GIG sydd â phrofiad o drawsblannu celloedd ynysoedd pancreatig. Os yw eich meddyg yn credu bod trawsblannu celloedd ynysoedd pancreatig yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth. Dylai eich meddyg ddweud wrthy ch am y risgiau posibl a'r ansicrwydd am ba mor dda mae'n gweithio yn yr hirdymor. Dim ond ar ôl i'r drafodaeth hon gael ei chynnal y dylid gofyn i chi a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Mae NICE hefyd wedi penderfynu bod angen gwybodaeth bellach am sut y mae'r driniaeth hon yn effeithio ar ansawdd bywyd a pha mor dda y mae'n gweithio yn yr hirdymor. Efallai bydd eich meddyg yn gofyn i chi os caiff manylion eich triniaeth eu defnyddio i helpu i gasglu rhagor o wybodaeth am y driniaeth hon. Os caiff, bydd eich meddyg yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth pe bai rhywbeth yn mynd o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar wyth astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Edrychodd un astudiaeth ar 112 o gleifion. Yn y flwyddyn cyn y trawsblaniad, cafodd 82% o gleifion gyfnod hypoglycaemig difrifol. Yn y flwyddyn ar ôl y trawsblaniad, dim ond 5% o gleifion a gafodd gyfnod hypoglycaemig difrifol. Yn yr un modd, nododd astudiaeth arall o 36 o gleifion na chawsant unrhyw gyfnodau hypoglycaemig difrifol ar ôl y trawsblaniad. Dilynodd astudiaeth wahanol gynnydd 65 o gleifion am bedair blynedd ar ôl y trawsblaniad, a dangosodd y rheolwyd diabetes yn well ar ôl y trawsblaniad, gyda gwell ymwybyddiaeth o hypoglycaemia.

Yn yr astudiaeth o 112 o gleifion, nid oedd angen inswlin bellach ar 67% o gleifion chwe mis ar ôl y trawsblaniad ac nid oedd ei angen ar 58% flwyddyn ar ei ôl. Roedd angen llai ohono ar gleifion a oedd ei angen o hyd, gyda gostyngiad o gyfartaledd o 57% yn eu gofynion inswlin ar ôl chwe mis a 69% ar ôl blwyddyn. Yn yr astudiaeth hon, methodd y trawsblaniad mewn 15 o gleifion. Yn yr astudiaeth arall o 36 o gleifion, nid oedd angen inswlin ar 21 o gleifion ar ryw gam ar ôl cyfnod o 41 o fisoedd, ond o'r 21 hyn, roedd angen inswlin ar 16 o gleifion eto 2 flynedd ar ôl y trawsblaniad.

Yn olaf, dangosodd astudiaeth o 99 o gleifion fod ofn cleifion o gyfnod hypoglycaemig wedi lleihau o ganlyniad i'r trawsblaniad.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd cynghorwyr mai prif nodau'r driniaeth oedd lleihau'r angen am inswlin a lleihau nifer y cyfnodau hypoglycaemig.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn tair astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 152 o gleifion, cofnodwyd gwaedu i'r abdomen mewn 26 o gleifion a chofnodwyd ceulad gwaed yn yr wythïen borthol mewn 9 claf. Mewn dwy astudiaeth o 101 o gleifion, niweidiwyd y bledren mewn tri chlaf. Yn yr astudiaeth o 112 o gleifion, roedd 77 o broblemau difrifol. O'r rhain, gallai 17 beryglu bywyd ac arweiniodd 45 ohonynt at arhosiad yn yr ysbyty. O'r 77, triniwyd 73 ohonynt heb unrhyw broblemau parhaol.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod gwaedu, ceulad gwaed yn yr wythïen borthol, pwysedd gwaed uchel yn yr iau/afu, problemau a achosir gan system imiwnedd is y claf, a'r

posibilrwydd fod celloedd y rhoddwr wedi'u heintio neu'n cario celloedd canseraidd ymhlith y problemau posibl.

Rhagor o wybodaeth am ddiabetes math 1

Gall Galw Iechyd Cymru ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan cychwyn da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich Gwasanaeth Cyngor a Chysylltiadau Cleifion (PALS) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'thrawsblaniad cell ynysoedd pancreatig alogenëig ar gyfer diabetes mellitus math 1'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael hefyd ar www.nice.org.uk/guidance/HTG165

Gallwch archebu copïau wedi'u hargraffu o'r daflen hon o gyhoeddiadau NICE (ffoniwch 0845 003 7783 neu anfonwch neges e-bost i publications@nice.org.uk a dyfynnwch y cyfeirnod N1567).

Rydym yn annog sefydliadau'r sector gwirfoddol a sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-7822-9

N1567 1P Ebrill 08

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2008. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of the Institute.